Teitl y Swydd: Cynorthwyydd Partneriaeth SMART (Dylunio a Chynhyrchu Cynaliadwy)

Uned/Ysgol: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Gradd: 4AB

HERA: CSAD201

**Prif bwrpas y rôl**
Mae angen y swydd hon i ddiwallu anghenion Partneriaeth SMART a ariennir gan Lywodraeth Cymru rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Ymddiriedolaeth Elusennol Wastesavers Cyf. Bydd y rôl yn cefnogi gwaith ymchwil ac arloesi'r Ysgol a datblygu marchnad ar gyfer Wastesavers drwy gynorthwyo tîm y prosiect mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy waith dylunio addurniadol ymarferol ar gyfer ailgylchu dodrefn a nwyddau cartref, cyflwyno gweithdai sgiliau cymunedol, casglu dogfennaeth ac adrodd / dadansoddi.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cefnogi'r prosiect ymchwil a'r busnes, gan gynnal gwaith dylunio a chynhyrchu a chasglu data ar y cyd â'r Prif Ymchwilydd yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud ag ailgylchu, rhannu sgiliau a datblygu'r economi gylchol.
- Cynnal ymchwil unigol neu ar y cyd (e.e., drwy ailgylchu dodrefn a nwyddau cartref, hwyluso gweithdai sgiliau cymunedol, rhwydweithio, arsylwadau a gwaith ymarferol) gan gynnwys gweithio gyda staff a gwirfoddolwyr Wastesavers.
- Datblygu a defnyddio technegau ymchwil dylunio ymarferol dan oruchwyliaeth arweinydd y prosiect e.e. torri laser a pheiriannu Rheolaeth Rhifyddol Gyfrifiadurol (CNC), argraffu, argaenwaith a chrefft torri a gludo, yn ogystal â chynhyrchu ac atgyweirio pren a metel.
- Defnyddio trylwyredd, menter a chreadigrwydd wrth fynd ar drywydd canlyniadau ymarferol a busnes, gan dynnu casgliadau priodol gyda phwyslais ar greu model manwerthu cynaliadwy.
- Ymdrin â phroblemau a allai effeithio ar gyflawni amcanion ymchwil/busnes sy'n seiliedig ar ymarfer a chyfrannu at gynllunio prosiectau yn y dyfodol.
- Cyflwyno gwybodaeth am gynnydd a chanlyniadau ymchwil i grwpiau sy'n goruchwylio'r prosiect ymchwil.
- Ysgrifennu canlyniadau o weithgareddau ymchwil, cyflwyno canfyddiadau a chyfrannu at ledaeniad a chynaliadwyedd y prosiect.
- Gweithio i derfynau amser a rheoli blaenoriaethau cystadleuol.
- Sicrhau bod gwybodaeth bersonol mewn maes astudio perthnasol yn cael ei chadw'n gyfredol.
- Bod yn wybodus am gyflwr presennol ymchwil drwy gynnal adolygiadau llenyddiaeth a monitro datblygiadau newydd yn y maes astudio, gan ymgymryd â gweithgareddau datblygu perthnasol yn ôl yr angen.

- Paratoi adroddiadau cynnydd ar yr ymchwil o bryd i'w gilydd yn ôl gofynion y Prif Ymchwilydd at ddibenion adolygu mewnol.
- Ysgrifennu'r canlyniadau a chyfrannu at ddrafftio a chyflwyno papurau i gyfnodolion priodol sydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.
- Cefnogi'r prif ymchwilydd ar bob mater sy'n ymwneud â'r prosiect yn ôl yr angen ac yn ôl yr angen ac yn gymesur â'r radd.

## <u>Manyleb person</u>

### Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd anrhydedd (2:1 neu uwch) mewn maes gwaith perthnasol neu gymhwyster cyfatebol

### Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Gwybodaeth am ddulliau ymchwil a chyd-destun sy'n briodol ar gyfer dylunio a gweithgynhyrchu cynaliadwy.
2. Gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau dylunio gan ddefnyddio offer traddodiadol a digidol.
3. Gwybodaeth am foeseg sy'n ymwneud â gweithio gyda'r gymuned, busnes ac ymchwil.
4. Y gallu i nodi meysydd i'w gwella gan ddefnyddio menter a sgiliau datrys problemau.
5. Lefel dda o sgiliau dadansoddol a datrys problemau ar gyfer ymchwil ansoddol a meintiol.
6. Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir, i amrywiaeth o academyddion a gweithwyr proffesiynol ar lafar ac yn ysgrifenedig e.e., ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau.
7. Sgiliau TG da gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, Adobe CC, meddalwedd CAD/CAM a llwyfannau gwe / cyfryngau cymdeithasol.
8. Y gallu i ddefnyddio menter bersonol a chreadigrwydd i ddatrys problemau a wynebir yng nghyd-destun ymchwil / busnes.
9. Hunan-gymhellol, trefnus a dangos sylw i fanylion
10. Tystiolaeth o brosiectau masnachol a/neu ymchwil dan arweiniad dylunio wedi'u cwblhau.
11. Parodrwydd i deithio a gweithredu rhwng campysau a sawl safle cwmni yn ôl yr angen er mwyn llwyddiant y prosiect ymchwil.

**Dymunol**

1. Sgiliau Ysgrifennu Adroddiadau.
2. Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chreu deunyddiau lledaenu sy'n apelio'n weledol.
3. Cyflwyno profiad (i gynulleidfaoedd bach a mawr).

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi eich hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Prif ddefnyddiwr**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac mae’n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd na'r fanyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.